# STO LAT

*Traddodiadol Pwyleg (trefn. Ula Weber)*

Cân Sing

## YNGLŶN Â'R GÂN HON

**Cân Bwylaidd draddodiadol yw Sto Lat sy'n cal ei ganu mewn digwyddiadau dathlu megis penblwyddi a phriodasau. Mae'r geiriau'n cyfieithu fel 'bydded i chi fyw can mlynedd'. Mae hefyd yn cael ei ganu i ddathlu llwyddiannau felly bydd yn cael ei glywed yn aml ar ddiwedd cyngerdd neu araith. Dros y blynyddoedd, mae pobl wedi ychwanegu sawl amrywiad o Sto Lat, felly gall canu'r gân ar ben-blwydd rhywun gymryd amser y dyddiau hyn! Wedi'i gynnwys yma mae'r fersiwn wreiddiol o Sto Lat ac amrywiad adnabyddus a syml.**

## THEMÂU/TESTUNAU

Cân werin/dathlu

## CYSYLLTIADAU ALLWEDDOL CWRICWLWM

Ieithoedd, Llafaredd a Chyfathrebu

Y Dyniaethau

## YSTYRIAETHAU SY'N BENODOL I'R DISGYBLAETH

### Cwmpas Lleisiol

11ed

### Ffurf Lleisiol

Unsain/harmoni, amrywiadau

### Elfennau Cerddorol

Strwythur a rhythm

### Nodweddion Cerddorol

Ymadroddion a dilyniannau syml

## Ymarferion Cynhesu

- Dewiswch sain gytsain fer o'r gân (defnyddiwch y canllaw seineg drosodd) a dywedwch hi 8 gwaith, i guriad cyson. Ailadroddwch gyda gwahanol gytseiniaid a llinynnau llythrennau a gymerwyd o'r geiriau, ee. cz, ż, ch, ac ati...
- Cnoi darn dychmygol o gwmbybl. Ymestynnwch y gwm a gwneud synau seiren (sleid o gwmpas yr ystod lleisiol, fel seiren aer) gan ddefnyddio llafariaid gwahanol. Mae hyn yn helpu dysgwyr i gael mynediad at eu llais canu uwch.
- Canwch y geiriau 'sto lat' ar un nodyn. Ailadroddwch un nodyn yn uwch a daliwch ati i fyny ac i lawr y raddfa (ceisiwch mynd i fyny 5 nodyn neu wythfed, sef 8 nodyn). Canwch y raddfa hon ychydig o weithiau, gan ddechrau ychydig yn uwch ac yn gyflymach bob tro.
- Mae angen ynganu da efo Pwyleg felly anogwch y dysgwyr i symud eu cegau, eu gwefusau a'u dannedd. Gofynnwch i'r dysgwyr roi eu bys (fel 'ffon goctel' dychmygol) yn erbyn ochr eu gwefusau a'u trwyn. Mae angen i'r 'ffon goctel' hynny symud llawer wrth ganu er mwyn i'r geiriau Pwyleg gael eu deall yn glir,
- Dyma ynganiad ffonetig o'r geiriau:

***Sto lat, sto lat, nye-ch jyy-ye, jyy-ie nam***
***Sto lat, sto lat, nye-ch jyy-ye, jyy-ie nam***
***Yish-che raz, yish-che raz, nye-ch jyy-ye, jyy-ye nam***
***Nye-ch jyy-ye nam.***

## Awgrymiadau o gysyltiadau allweddol i'r Meysydd eraill, themâu trawgwricwlaidd a/neu chyd-destynau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol:

- Cân ddathlu draddodiadol Bwylaidd yw hon. Darganfyddwch fwy am ddiwrnodau dathlu traddodiadol Pwylaidd eraill fel Wianki a Diwrnod Annibyniaeth.
- Mae llawer o Bwyliaid yn cael eu henwi ar ôl Seintiau ac yn aml mae gan y Diwrnodau Enwau hyn bwyslais dathliadol yn fwy na phenblwyddi! Darganfyddwch fwy am Ddyddiau Enw a'r gwahanol Ddyddiau Gwledd sy'n gysylltiedig â nhw. Ydych chi'n rhannu enw gyda Sant Pwylaidd?
- Mae Dewi Sant a Santes Dwynwen yn ddau Sant sy'n gysylltiedig â Chymru. Allwch chi ddarganfod mwy am y gwahanol Seintiau Pwylaidd. A oes ganddynt unrhyw debygrwydd i Seintiau eraill y gwyddoch amdanynt?

**GRADDFA: CANOLRADD**

© CanSing Cymru 2022

# STO LAT

*Traddodiadol Pwyleg (trefn. Ula Weber)*

## Addysgu a Dysgu

Mewn Pwyleg mae holl synau'r llafariad yn debyg iawn i'r Gymraeg (meddyliwch yn ôl i ddysgu ffoneg dechreuol):

***a = mam, taran***
***e = enw, eliffant***
***i = fi, ti,***
***o = potel, ochr***
***u = fel 'oo' yn y gair 'book' Saesneg (ond efo gwefusau wedi gwthio ymlaen.***
***y = mynd,***

Yn Sto Lat, mae cwpl o lythrennau a llinynnau llythrennau sydd â'u sain eu hunain:

***ch = diolch (Cymraeg), loch (Alban)***
***ż = fel y gair Ffrangeg 'je' ond efo gwefusau wedi gwthio ymlaen.***
***j = Iesu, iesgob***
***sz = sh (ond efo gwefusau wedi gwthio ymlaen)***
***cz = 'ch' Saesneg fel church, cheese (ond efo gwefusau wedi gwthio ymlaen)***

Mae 'R's' yn cael ei rolio os yw llafariad yn dilyn yn syth.

1. Os oes gennych chi siaradwr Pwyleg yn eich grŵp, anogwch nhw i'ch helpu chi i addysgu'r gân gan eu bod nhw'n debygol o'i hadnabod.
2. Dewiswch 'Rhan 1 yn unig' a gwrandewch ar y trac dysgu ychydig o weithiau nes eich bod yn hyderus gyda'r dôn a'r geiriau.
3. Defnyddiwch 'Tro fi, tro chi' i addysgu'r geiriau Pwyleg yn rhythm yr alaw. Gwnewch hyn fesul llinell.
4. Dysgwch yr ymadrodd cyntaf i 'dw' neu 'la' ac anogwch y dysgwyr i'ch gwylio ar y saib fel bod pawb yn dod oddi ar y nodyn gyda'i gilydd. Ceisiwch ychwanegu'r geiriau.
5. Nesaf canwch yr ail gymal a sylwch sut mae'r ymadrodd hwn bron yr un fath â'r un cyntaf, ond un cam yn is. Ychwanegwch y geiriau at y linnell hon.
6. Parhewch i ddysgu gweddill yr ymadroddion i 'la' neu 'dw' ac unwaith yn hyderus, ychwanegwch y geiriau a chanwch drwy'r gân gyfan.
7. Yn olaf, ceisiwch ganu'r gân gyfan mewn Pwyleg yn unsain.

## Sgiliau Cyfannol

Unwaith y bydd y dysgwyr yn hyderus i ganu'r alaw, ceisiwch ychwanegu'r Amrywiad:

- Dewiswch 'Rhan 1 yn unig'. Gwrandewch ar y trac dysgu ychydig o weithiau nes eich bod yn hyderus gyda'r alaw a'r geiriau. Sylwch fod y geiriau bron yr un fath ac eithrio'r gair 'niechaj' (ynganu 'nye-hi').
- Dechreuwch trwy chwarae'r trac dysgu a gwahoddwch bawb i glapio neu dapio i guriad y gân.
- Gofynnwch i'r dysgwyr glapio rhythm y dôn (Rhan 1). Rhannwch y dosbarth yn ddau grŵp a gofynnwch i un grŵp glapio rhythm yr alaw tra bod y grŵp arall yn tapio curiad y gân.
- Dysgwch yr alaw (Rhan 1) a'i chanu i 'la' wrth glapio neu dapio curiad y galon.
- Unwaith y byddwch chi a'r dysgwyr yn hyderus gyda'r alaw ychwanegwch y geiriau Pwyleg.

© CanSing Cymru 2022

**GRADDFA: CANOLRADD**

# STO LAT

*Traddodiadol Pwyleg (trefn. Ula Weber)*

Cân Sing

## Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig:

*•Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfydig a chreadigol•*

*•Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a'r dychymyg•*

- Dysgwch yr harmonïau. Dechreuwch trwy ychwanegu'r ail ran. Dewiswch 'Rhan 2' a'i chwarae i'r dysgwyr. Dysgwch y gân fesul llinell gan ddefnyddio'r dull 'Dw i'n canu, 'da chi'n canu,' os ydych yn hyderus yn gwneud hyn. Fel arall chwaraewch y trac fesul llinell a toglwch yn ôl er mwyn i'r dysgwyr gael cyd-ganu.

- Ailadroddwch y dull hwn i ddysgu'r drydedd ran. Dewiswch 'Rhan 3' ar y gwymplen. Anogwch y dysgwyr i beidio â defnyddio lleisiau 'gwaeddi' gan y gallai'r rhan hon fod yn isel yn eu hystod lleisiol.

- Pan fyddwch chi'n hyderus gyda'r tair rhan, rhannwch y dosbarth yn dair a rhowch ran llais i bob grŵp. Dechreuwch trwy hymian eu rhannau'n dawel a gwrando'n ofalus ar ei gilydd. Ychwanegwch y geiriau a chanwch y gân yn ei chyfanrwydd gan ddewis 'Trac llawn'.

- Fel her, dysgwch Rannau 2 a Rhan 3 ar gyfer yr Amrywiad hefyd. Sylwch fod rhai nodiadau yn y rhannau harmoni yn staccato a dylid eu canu'n fyr a'u gwahanu. Ond, nid yw'r tri nodyn olaf yn y rhannau harmoni bellach yn staccato a dylid eu canu'n llyfn.

## Asesu ar gyfer Dysgu:

*•Mae ymateb a myfyrio, fel artist, ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol•*

### Holi

**Adnodd: Dim dwylo fyny**

- Rhowch enghraifft i mi o rythm a gyflwynir yn y gân hon. Ai rhythm dotiog neu syth yw hwn?
- Sut y gallem wella ein perfformiad cyffredinol?
- Sut arall allwn ni berfformio'r gân hon?
- Beth yw effaith y delyneg a ailadroddir ar ddechrau pob cymal?

### Adborth

**Adnodd: Sylwadau yn unig**

Rhoi adborth penodol i grwpiau ar eu sylw o'r rhythm. Efallai y bydd angen i chi ddangos y rhythmau dotiog ar ddechrau'r cymal cyntaf a'r nodyn hir sy'n dilyn.

### Hunanesesiad / Asesiad gan gyfoedion

**Adnodd: Deialog dysgwr i ddysgwr**

Gofynnwch i'r dysgwyr gymryd eu tro i fod yn athro wrth drafod y perfformiad ac i ofyn cwestiynau. Efallai y bydd angen i chi roi rhai awgrymiadau iddynt o gwestiynau posibl, ar gyfer enghraifft:

- Oedd hon yn gân anodd neu hawdd i'w dysgu? Pam?
- Beth ydych chi'n ei hoffi / ddim yn ei hoffi am y gân hon?

© CanSing Cymru 2022

**GRADDFA: CANOLRADD**